


# Y Gwasanaeth Lles Addys Cyflogi Plant

Canllawiau I Gyflogwyr





## **Ni Chewch Gyflogi Plentyn Dan 13 Blwydd Oed**

***Ni chewch gyflogi plant oed ysgol i weithio cyn 7am neu ar ôl 7pm ar unrhyw achlysur!***

Mae plant yn weithwyr cyflog os ydynt yn cynorthwyo unrhyw fasnach neu alwedigaeth a gyflawnir er elw, p'un a ydynt yn derbyn cyflog neu wobr neu beidio. Mae hyn yn wir hefyd os cânt eu cyflogi gan riant neu warcheidwad.

### **Mae cyflogwyr yn agored i gael eu herlyn;-**


- os nad ydynt yn cofrestru gweithwyr oed ysgol
- os ydynt yn cyflogi plant oed ysgol i wneud gwaith a waherddir
- os ydynt yn caniatáu i blant oed ysgol weithio y tu allan i'r oriau a ganiateir gan y deddfau lleol

Chi sy'n gyfrifol am iechyd, diogelwch a lles y plant a gyflogir gennych ac mae'n rhaid ichi gynnal asesiadau risg.

Mae'n rhaid ichi sicrhau bod gan y plant ddillad ac esgidiau priodol gan gynnwys gwisg amddiffynnol os oes angen, a sicrhau eu bod yn cael y seibiau priodol sef o leiaf 1 awr o seibiant ar ôl 4 awr o waith.

Mae'n bosibl na fydd eich polisiâu yswiriant yn berthnasol i blant sydd heb fod ar gofrestr waith yr Awdurdod Addysg Lleol (AALI).

I gael gwybodaeth ynghylch plant sy'n cymryd rhan mewn adloniant byddwch gystal â chysylltu â'r cyfeiriad neu'r rhif ffôn a nodir ar y tudalen cefn.



## Pryd Y Gall Plant Weithio Ac Am Ba Hyd?

*Ni chaniateir i blant weithio cyn 7am nac ar ôl 7pm*

	13-14 blwydd	15-16 blwydd
Ar ddiwrnodau ysgol	2 awr*	2 awr*
Ar Ddydd Sadwrn	5 awr	8 awr
Ar Ddydd Sul	2 awr	2 awr
Yn ystod gwyliau ysgol	5 awr	8 awr
	<i>Hyd at fwyafswm o 25 awr yr wythnos</i>	<i>Hyd at fwyafswm o 35 o oriau'r wythnos</i>

- Caniateir i blant weithio y tu allan i oriau'r ysgol yn unig. Gall hyn gynnwys 1 awr o waith cyn ysgol.
- Ni chaniateir i blant weithio mwy na 12 awr yr wythnos yn ystod y tymor ysgol
- Mae'n rhaid i bob plentyn oed ysgol gael egwyl o 2 wythnos yn olynol yn ystod y gwyliau ysgol.

## Pa Fath O Waith Y Caiff Plant Oed Ysgol Ei Wneud?

*Caniateir i blant 13 blwydd oed wneud gwaith ysgafn yn unig yn y meysydd canlynol:-*


- gwaith amaethyddol neu arddwriaethol
- dosbarthu papurau newyddion, cylchgronau, taflenni (NI CHANIMATEIR IDDYNT GASGLU ARIAN)
- gwaith siop
- siopau trin gwallt
- gwaith swyddfa
- stablau marchogaeth, cynelau neu lety cathod
- mewn caffi neu fwyty (NID MEWN CEGIN)

*Caiff plant 14, 15, 16 blwydd oed wneud gwaith ysgafn mewn amrywiaeth ehangach o swyddi*

## GWAITH A WAHERDDIR

Mae'r is-ddeddfau'n pennu na chaniateir cyflogi plant oed ysgol yn y meysydd canlynol:-

- mewn sinema, theatr, disgo, neuadd ddawns neu glwb nos (oni bai bod ganddynt drwydded i berfformio yno)
- gwerthu neu weini alcohol ac eithrio mewn poteli neu gynwysyddion sydd wedi'u selio
- dosbarthu llaeth
- dosbarthu olew tanwydd
- mewn cegin fasnachol
- casglu neu ddioli sbwriel
- mewn unrhyw waith sy'n digwydd fwy na thri metr uwchlaw'r ddaear neu, yn achos gwaith dan do, fwy na thri metr uwchlaw'r llawr
- mewn gwaith sy'n golygu dod i gysylltiad â chyfryngau ffisegol, biolegol neu gemegol niweidiol
- mewn ffatri neu fusnes diwydiannol
- casglu arian neu waith gwerthu neu ganfasio o ddrws i ddrws
- mewn gwaith sy'n golygu dod ar draws deunydd i oedolion yn unig neu sefyllfaoedd sydd am y rheswm hwn yn anaddas i blant
- mewn unrhyw ladd-dy neu yn y rhan honno o unrhyw siop gigydd neu adeiladau eraill sy'n gysylltiedig â lladd da byw, gwaith cigydd neu baratoi cyrff anifeiliaid neu gig i'w gwerthu
- fel ceidwad neu gynorthwydd mewn ffair neu arcêd ddifyrion neu mewn unrhyw adeilad arall a ddefnyddir i ddifyrru'r cyhoedd â pheiriannau awtomatig, gemau hapchwarae neu sgîl neu ddyfeisiau tebyg
- â gofal personol preswylwyr unrhyw gartref gofal preswyl neu gartref nyrso



## Os Oes Gan Blant Hawlen, A Ellir Eu Hatal Rhag Gweithio?

*Gellir atal plant rhag gweithio, o bosib, os oes dirywiad yn eu gwaith ysgol, eu presenoldeb neu eu hiechyd neu os ydynt byth a beunydd yn hwyr i'r ysgol.*

## A Yw Plant Yn Gallu Bod Yn Weithwyr Amser-Llawn Os Oes Rhif Yswiriant Gwladol Ganddynt?

*Os oes gan blentyn Rif Yswiriant Gwladol NID YW HYN yn golygu y caiff y plentyn/person ifanc adael yr ysgol a bod yn weithiwr amser llawn. Ystyrir bod plant o oedran ysgol gorfodol hyd nes y dydd Gwener olaf ym mis Mehefin yn y flwyddyn ysgol pryd y byddant yn troi'n 16 mlwydd oed.*

## Beth Yw'r Cam Nesaf?

Os ydych chi'n cyflogi plant oed ysgol, eich cyfrifoldeb chi yw cael hawlen ar eu cyfer. I gael ffurflen gais, cysylltwch â ni yn y cyfeiriad neu ar y rhif ffôn a nodir ar y tudalen cefn.



## PETHAU PWYSIG I'W COFIO!

Os ydych yn cyflogi plant oed ysgol rydych chi'n gyfrifol am iechyd, diogelwch a lles y plant pan ydynt yn y gwaith ac mae'n rhaid ichi roi dillad amddiffynnol iddynt pan yw hynny'n angenrheidiol.

Hefyd, mae'n rhaid ichi gynnal asesiad risg a rhoi gwybod i'r rhieni/gwarcheidwaid am unrhyw gamau rheoli a gymerwyd.

Mae'n rhaid ichi gadw hawlen y plentyn a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod Addysg Lleol a'i chyflwyno pan ofynnir i chi.

Rheolau cyffredinol ynghylch cyflogi plant a nodir yn y daflen hon.

*I gael ffurflen gais am hawlen neu i gael rhagor o wybodaeth am gyflogi plant neu blant sy'n cymryd rhan mewn adloniant, cysylltwch â'r canlynol:*

### Cyngor Sir Caerfyrddin

Y Gwasanaeth Lles Addysg,  
Yr Adran Addysg a Gwasanaethau Plant,  
Pibwr-lwyd,  
Caerfyrddin  
SA31 2NH,

rhif ffôn 01267 224571

